

Pecyn Adnoddau Dysgu Cestyll Harlech a Caernarfon

CA2

Llythrennedd a Hanes – Oes y Tywysogion
Branwen ferch Llŷr

D
Y
S
D



Cestyll Harlech a Caernarfon

Llythrennedd a Hanes – Oes y Tywysogion

Cyflwyniad

Nod y pecyn hwn yw helpu athrawon i gynnal ymweliadau hunan-dywys mewn ffordd greadigol, hyderus a llawn dychymyg. Mae'r gweithgareddau a awgrymir yn hyblyg a gellir eu cynnal mewn nifer o ffyrdd. Anogwn athrawon i ddewis ac addasu'r deunydd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y pwnc a'r grŵp blwyddyn.

Trefnu ymweliad

Wyddech chi fod ymweliadau hunan-dywys â safleoedd Cadw am ddim i grwpiau addysg sy'n mynychu sefydliadau addysg yn yr Undeb Ewropeaidd?

I drefnu eich ymweliad am ddim, dilynwch y camau syml hyn:

- Trefnwch eich ymweliad o leiaf 5 diwrnod gwaith o flaen llaw.
- Ffoniwch y safle i holi a yw ar gael ar y dyddiad yr hoffech ymweld.
- Unwaith y byddwch wedi cytuno ar ddyddiad ac amser gyda'r safle, llenwch y ffurflen archebu ar-lein www.cadw.cymru.gov.uk/learning

Rydym hefyd yn cynnig gweithgareddau addysg rhyngweithiol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm mewn rhai safleoedd.

Iechyd a Diogelwch

Mae athrawon ac arweinwyr grŵp yn gyfrifol am wneud asesiad risg cyn yr ymweliad, yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan awdurdodau addysg lleol. Rydym yn cynnig ymweliadau ymgyfarwyddo am ddim i athrawon i'w galluogi i ysgrifennu'r asesiadau risg a chynllunio gweithgareddau cyn dod â grŵp i'r safle. Mae'r tudalennau dysgu ar wefan Cadw yn cynnig cyngor ar gynllunio eich ymweliad a gwybodaeth benodol am y safle.



© Cadw, Llywodraeth Cymru (Hawffraint y Goron), 2013



Cestyll Harlech a Caernarfon

Llythrennedd a Hanes – Oes y Tywysogion

Amcanion

Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd Cenedlaethol

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu –
Llefaredd, Darllen, Ysgrifennu

Bydd myfyrwyr yn gallu:

- Nodi digwyddiadau wrth iddynt ymddangos a gwahaniaethu rhwng y gorffennol a'r presennol
- Defnyddio geirfa briodol
- Nodi'r gwahaniaethau rhwng y gorffennol a'r presennol
- Nodi ffyrdd gwahanol o ddehongli'r gorffennol
- Gofyn cwestiynau am y gorffennol a chael atebion drwy gyfeirio at ffynonellau



Mae cerflun o Bendigeidfran yn sefyll y tu allan i Gastell Harlech.



Bydd yr ysgol yn darparu:

Clipfyrddau

Papur

Pensiliau

Mae stori Branwen ferch Llyr i 'w gweld yng nghasgliad straeon: [Arwyr ac Arwresau Cymru](#)



Cestyll Harlech a Caernarfon

Llythrennedd a Hanes – Oes y Tywysogion

Gweithgareddau iaith yn seiliedig ar stori Branwen ferch Llŵr

Gwaith ymchwil a chyflwyniad

Gall y strategaethau sy'n dilyn arwain at waith unigol neu grŵp.

Dysgwch am un o'r pynciau canlynol. Cyflwynwch y wybodaeth i gynulleidfa, fel aelodau eraill o'r dosbarth.

Gallai cyflwyniad gynnwys cyfuniad o'r canlynol: siarad o flaen y dosbarth, poster, llyfrynau neu daflenni, arddangosfa wal.

- **Astudiaeth o enwau pobl:**

e.e. Branwen ferch Llŵr

Gwern fab Matholwch

Enwau lleoedd – Aberffraw = aber afon Ffraw

Eraill y gallech fod wedi clywed amdanynt:

Llywelyn ap Iorwerth = Llywelyn fab Iorwerth

Mair

Gall hyn gael ei ymestyn i ystyried cyfenwau sy'n deillio o alwedigaethau e.e. Smith, Baker neu enwau sy'n disgrifio nodweddion corfforol e.e. Matthew Goch, Matthew â gwallt coch.



- **Cipolwg ar gymariaethau**

Dewch o hyd i'r geiriau disgrifiadol yn y stori. Ar gyfer pob ansoddair a welwch, crëwch gymariaethau i'w disgrifio. e.e. fflyd ysblennydd o longau: Roedd y llongau mor ysblennydd â...y pair hud: Roedd y pair mor hudol â...

- **Chwarae rôl**

Dychmygwch mai chi yw Branwen, Bendigeidfran, Efnisien neu Matholwch. Mae'r newyddion bod Efnisien wedi brifo'r ceffylau newydd gyrraedd y parti - sut ydych chi'n ymateb?

Cerddi

Defnyddiwch ddeunydd o'r stori i ysgrifennu cerdd am amser Branwen yn byw yn Iwerddon. Gallai fod yn gerdd sy'n defnyddio geiriau ac ymadroddion o'r stori. Beth wnaeth Branwen ei weld, ei deimlo, ei gyffwrdd, ei arogl i a'i glywed?



Cestyll Harlech a Caernarfon

Llythrennedd a Hanes – Oes y Tywysogion

Ysgrifennu

Mae'r newyddion am Efnisien yn brifo'r ceffylau yn ystod y briodas wedi cyrraedd y papur newydd lleol. Ysgrifennwch erthygl sy'n cofnodi digwyddiadau'r noson.

Ymchwil

Dysgwch am straeon eraill y Mabinogi, eu cymeriadau a'u hanes yng Nghymru. Gallech dynnu llun o Gymru i ddangos ble y cawsant eu lleoli. Paratowch gyflwyniad dwy neu dair munud o hyd i'r dosbarth.

Gweithgareddau Creadigol

1. Cynlluniwch a chrëwch bypedau a set theatraidd ar gyfer neuadd neu ffair ganoloesol.
Ysgrifennwch sript ar gyfer drama pypedau yn seiliedig ar stori Branwen.
2. Hysbyseb wch y perfformiad ymhlith eich cyd-ddisgyblion drwy ddefnyddio poster, tocynnau a rhaglenni.
Ewch ati i ymarfer a pherfformio'r ddrama.
3. Gallai adolygiadau o'r ddrama gael eu hysgrifennu a'u cyhoeddi, fel rhan o arddangosfa, gan gynnwys sgetshis a ffotograffau, neu fel erthygl ar gyfer papur newydd y dosbarth.

Drama a symud

Byddai gwledd fawr wedi'i pharatoi ar gyfer priodas Branwen a Matholwch. Dewch o hyd i'r gegyn yng Nghastell Caernarfon neu Gastell Harlech.

Mewn grwpiau, trafodwch pa swyddi a oedd ar gael yn y gegyn.

Gadewch i bob unigolyn ddangos ei swydd gan ddefnyddio meim. Dylai pawb arall geisio dyfalu pob swydd o'r meim.

Ffurfiwch barau, A a B. Mae A yn dewis nifer o weithgareddau yn y gegyn ac yn eu meimio'n araf ac mewn trefn. Rhaid i B gopïo'r meim, fel mewn drych. Sefwch wyneb yn wyneb gyda chledrau eich dwylo bron yn cyffwrdd â'i gilydd.

Gwaith grŵp

Mae rhywbeth ofnadwy wedi digwydd yn y gegyn. Rhaid i chi drafod fel grŵp beth ydyw a ble yn y gegyn y mae wedi digwydd.

Crëwch lun llonydd o'r digwyddiad i ddangos sut y byddech yn ymateb heb siarad. Cofiwch na fyddai pawb yn ymateb yn yr un ffordd.

Cyn gadael y llun, mae pob cymeriad yn cael cyfle i ddweud UN gair i ddisgrifio sut mae'n teimlo ar y pryd.

